

Canllaw Cyflym

Mae cyfathrebu mewnol clir yn helpu i gynyddu defnydd o'r Gymraeg drwy ei gwneud yn rhan naturiol o waith bob dydd. Mae'r canllaw cyflym hwn yn helpu chi wneud hynny.

1. Adnabod nod a gweledigaeth

Penderfynwch beth rydych am ei gyflawni o ran cynyddu defnydd o'r Gymraeg, a diffiniwch weledigaeth glir i arwain eich cyfathrebu.

2. Dadansoddi cynulleidfa

Mapiwch y prif grwpiau staff e.e. staff newydd, dysgwyr, rheolwyr, AD, neu staff nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg.

3. Diffinio negeseuon allweddol

Cadwch y negeseuon yn syml ac yn gyson, e.e.

- Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb
- Does dim rhaid i'ch Cymraeg fod yn berffaith
- Mae gan bawb rôl i'w chwarae

4. Rhannu cynulleidfaoedd

Meddyliwch am y gwahanol gynulleidfaoedd rydych chi wedi'u hadnabod. Nid oes angen yr un neges ar bawb. Beth sydd angen iddynt ei wybod?

5. Adnabod sianeli cyfathrebu

Defnyddiwch sianeli sy'n addas i'r gynulleidfa – e-bost, Teams, mewnwrwyd, cyfarfodydd, hyfforddiant neu sesiynau anffurfiol.

6. Sicrhau cefnogaeth arweinwyr a rheolwyr

Sicrhewch fod rheolwyr ac arweinwyr yn deall y nod ac yn arwain drwy esiampl.

7. Cynnwys llais y staff

Defnyddiwch enghreifftiau gan staff i normaleiddio ac annog defnydd o'r Gymraeg.

8. Sianel dwy ffordd

Rhowch ffordd hawdd i staff rannu syniadau, profiadau neu rwystrau.

9. Monitro a gwerthuso

Mesurwch effaith y cynllun e.e. nifer sy'n ymgysylltu neu adborth staff– ac yna addasu cyfathrebu fel bo angen.

Cofiwch: Dylai cyfathrebu am y Gymraeg fod yn gyson a chadarnhaol. Gwnewch hi'n hawdd i staff gymryd rhan, dangoswch fod cefnogaeth ar gael, ac atgoffwch bawb fod ganddynt ran i'w chwarae.